

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3) Llywodraeth Cymru ar Fil Banc Seilwaith y DU

Ionawr 2023



1. Cefndir

Bil Banc Seilwaith y DU Llywodraeth y DU

1. Cyflwynwyd Bil Banc Seilwaith y DU¹ (y Bil) yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 11 Mai 2022. Fe'i noddir gan Drysorlys EF.
2. Mae enw hir y Bil yn datgan ei ddiben fel a ganlyn:

"to make provision about the UK Infrastructure Bank."

3. Cwblhaodd y Bil ei daith drwy Dŷ'r Arglwyddi ar 11 Gorffennaf 2022, a chafodd ei ddarllenid cyntaf yn Nhŷ'r Cyffredin ar 12 Gorffennaf 2022. Cwblhaodd y Bil y Cyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Cyffredin ar 22 Tachwedd 2022. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, nid oedd y dyddiad ar gyfer y Cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Cyffredin wedi'i gadarnhau eto.

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) Llywodraeth Cymru

4. Mae Rheolau Sefydlog 29.1 a 29.2, yn darparu ei bod yn ofynnol gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol pan fydd Bil perthnasol yn y DU yn gwneud darpariaeth o ran Cymru at unrhyw ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd neu sy'n addasu ei chymhwysedd deddfwriaethol.
5. Ar 25 Mai 2022, gosododd Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol (y Gweinidog), Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (y Memorandwm) gerbron y Senedd mewn cysylltiad â'r Bil.²
6. Ar 8 Gorffennaf 2022, gosododd y Gweinidog Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) gerbron y Senedd³ mewn cysylltiad â gwelliannau a dderbyniwyd yn y Cyfnod Adrodd⁴ yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 4 Gorffennaf 2022.

¹ Bil Banc Seilwaith y DU, fel y'i cyflwynwyd (Bil Tŷ'r Arglwyddi 3)

² Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, Bil Banc Seilwaith y DU, Mai 2022

³ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2), Bil Banc Seilwaith y DU, Gorffennaf 2022

⁴ Bil Banc Seilwaith y DU, fel y'i diwygiwyd ar ôl y Cyfnod Adrodd

7. Gwnaethom gyflwyno adroddiad ar y Memoranda hyn ar 13 Hydref 2022.⁵
8. Nododd paragraffau 7 i 9 ac 16 i 20 o'n hadroddiad cyntaf gymalau yn y Bil yr oedd Llywodraeth Cymru, ar y pryd, yn ystyried bod angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer, a lle roedd anghytundeb rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.
9. Mae paragraffau 10 i 13 a 22 o'r adroddiad hwnnw'n nodi safbwynt Llywodraeth Cymru ar y Bil, fel y'i nodwyd yn y Memorandwm a Memorandwm Rhif 2.
10. Ar 21 Tachwedd 2022, ymatebodd y Gweinidog i'n hadroddiad cyntaf.⁶

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Llywodraeth Cymru (Memorandwm Rhif 3)

11. Ar 30 Tachwedd 2022, gosododd y Gweinidog Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol arall gerbron y Senedd (Memorandwm Rhif 3⁷) mewn cysylltiad â gwelliannau a gyflwynwyd i'w hystyried yn ystod y Cyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Arglwyddi.
12. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, y Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad gyflwyno adroddiad ar Femorandwm Rhif 3 erbyn 16 Ionawr 2023.⁸

Diweddariad ar y safbwynt ers cyhoeddi'r Memorandwm a Memorandwm Rhif 2

13. Mae paragraffau 15 i 44 o Femorandwm Rhif 3 yn rhoi diweddariad ar y safbwynt ers cyhoeddi'r memoranda cydsyniad deddfwriaethol cynharach.
14. Ers gosod Memorandwm Rhif 2, cyflwynodd Llywodraeth y DU ragor o welliannau i'r Bil i'w ystyried yn y Cyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Cyffredin mewn perthynas â chymalau 2, 3, 6, 7, 10 ac 11. Derbyniwyd y gwelliannau hyn.
15. Ym Memorandwm Rhif 3, mewn perthynas â'r holl welliannau, mae'r Gweinidog yn datgan nad ydynt yn effeithio ar y cyngor cymhwysedd a nodir ar gyfer y cymalau gwreiddiol. Gwnaeth

⁵ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar Fil Banc Seilwaith y DU, Hydref 2022

⁶ Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, 21 Tachwedd 2022

⁷ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3), Bil Banc Seilwaith y DU, Tachwedd 2022

⁸ Y Pwyllgor Busnes, Amserlen ar gyfer ystyried y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Rhif 3) ar y Bil Banc Seilwaith y DU, Tachwedd 2022

yr holl welliannau hyn ddarpariaeth at ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.⁹

Safbwynt Llywodraeth Cymru ar y gwelliannau a wnaed i'r Bil

16. Mae paragraffau 19 i 44 o Femorandwm Rhif 3 yn nodi safbwynt Llywodraeth Cymru ar y gwelliannau a wnaed i'r Bil y mae angen cydsyniad ar eu cyfer.

17. Fel y datganwyd uchod, mae'r gwelliannau a dderbyniwyd yn ymwneud â'r darpariaethau a ganlyn yn y Bil:

- cymal 2 (Amcanion a gweithgareddau);
- cymal 3 (Blaenoriaethau a chynlluniau strategol);
- cymal 6 (Cyfrifon ac adroddiadau blynyddol);
- cymal 7 (Cyfarwyddwyr: penodi a deiliadaeth);
- cymal 10 (Dehongli);
- cymal 11 (Rhychwant ac enw byr).

18. Mae paragraffau 46 i 50 o Femorandwm Rhif 3 yn nodi safbwynt polisi presennol Llywodraeth Cymru:

"Nid oedd y Bil fel y'i cyflwynwyd yn wreiddiol yn darparu unrhyw rôl i'r Senedd na Llywodraeth Cymru o ran llywodraethiant y Banc, ac roedd yn cadw gweithgareddau penodol ar gyfer Senedd y DU, y Canghellor a Thrysorlys Ei Fawrhydi.

Mae cymal 2 yn caniatáu i'r Trysorlys ddiwygio gweithgareddau'r Banc a'r diffiniad o seilwaith. Drwy Welliant y Llywodraeth 3 mae rhwymedigaeth statudol ar y Trysorlys i ymgynghori â Gweinidogion Cymru wrth arfer y pwerau hyn.

Yn yr un modd, mae cymal 3 yn caniatáu i'r Trysorlys ddiwygio neu ddisodli'r datganiad o flaenoriaethau strategol ar gyfer y Banc. Drwy Welliant y

⁹ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Rhif 3, paragraffau 26, 31, 37 a 44.

Llywodraeth 4 mae rhwymedigaeth statudol ar y Trysorlys i ymgynghori â Gweinidogion Cymru wrth arfer y pwerau hyn.

Mae Gwelliant y Llywodraeth 5 yn nodi bod rhaid i'r Bwrdd benodi un neu ragor o Gyfarwyddwyr i ystyried buddiannau'r awdurdodau cenedlaethol. Bydd hyn yn darparu dyletswydd statudol i gysylltu ag o leiaf un o Gyfarwyddwyr y Bwrdd a Gweinidogion Cymru, gan helpu i sicrhau bod buddiannau Cymru yn cael eu hystyried ar y Bwrdd.

Mae'r tri gwelliant a amlinellir uchod yn darparu rôl statudol i Weinidogion Cymru neu'n rhoi ystyriaeth i fuddiannau Cymru yn y tri phrif faes lle mae gan Lywodraeth y DU bwerau penodol. Er nad yw'r canlyniad yn gwireddu fy holl amcanion, credaf fod gwelliannau Llywodraeth y DU yn gyfaddawd rhesymol a fydd yn galluogi i fuddiannau Cymru a Llywodraeth Cymru gael eu hadlewyrchu drwy waith y Banc."

Casgliadau Llywodraeth Cymru ym Memorandwm Rhif 3

19. Ym Memorandwm Rhif 3, mae'r Gweinidog yn datgan fel a ganlyn:

"Gwnaed gwelliannau i'r Bil er mwyn adlewyrchu buddiannau Cymru a Llywodraeth Cymru yn well ac i barchu'r setliad datganoli yn well. Rwyf felly yn awr yn argymhell bod cydsyniad yn cael ei roi i'r Bil. Maes o law, bwriadaf felly argymhell bod y Senedd yn cydsynio i basio'r Bil hwn."¹⁰

¹⁰ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Rhif 3, paragraff 53

2. Trafodaeth y Pwyllgor

20. Trafodwyd Memorandwm Rhif 3 yn ein cyfarfod ar 9 Ionawr 2023.¹¹

21. O gofio cynnig Llywodraeth Cymru i gynnal dadl ar y cynnig cydsyniad perthnasol ar gyfer y Bil ar 17 Ionawr, a chan ystyried y terfyn amser ar gyfer cyflwyno adroddiad a osodwyd gan Bwyllgor Busnes y Senedd, derbyniwyd ein hadroddiad ar 16 Ionawr 2023.¹²

Ein barn ni

22. Nodwn fod Memorandwm Rhif 3 yn ymwneud â gwelliannau a wnaed i'r Bil yn Nhŷ'r Cyffredin i gymalau 2, 3, 6, 7, 10 ac 11.

23. Nodwn fod gwelliannau a wnaed i gymalau 2 a 3 o'r Bil bellach yn darparu rôl ymgynghorol i Weinidogion Cymru cyn y caiff Trysorlys EF arfer y pwerau yn unol â'r cymalau hynny.

24. Rydym yn cydnabod bod y Gweinidog bellach yn argymhell i'r Senedd y rhoddir cydsyniad i'r Bil gan ei bod yn ystyried ei fod wedi'i ddiwygio i "adlewyrchu buddiannau Cymru a Llywodraeth Cymru yn well ac i barchu'r setliad datganoli yn well".

Casgliad 1. Rydym yn cytuno ag asesiad Llywodraeth Cymru bod yr holl gymalau (a gwelliannau i'r cymalau hynny) a restrir yn y Memorandwm yn dod o fewn diben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, fel y'i disgrifir yn Rheol Sefydlog 29.

25. Fel y gwnaethom bwysleisio yn ein hadroddiad cyntaf, nodwn nad yw barn Llywodraeth y DU am y cymalau y mae angen cydsyniad ar eu cyfer yn gyson â barn Llywodraeth Cymru.

26. Fel y datganwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, ysgrifennodd y Gweinidog atom ar 21 Tachwedd i ymateb i'r argymhellion yn ein hadroddiad cyntaf.

27. Tynnodd casgliadau 2 a 3 yn ein hadroddiad cyntaf sylw at ein pryderon, er gwaethaf gwaith rhynglywodraethol ar y Bil cyn ei gyflwyno, y cyflwynwyd y Bil i Senedd y DU mewn cyflwr a oedd yn golygu na allai Llywodraeth Cymru argymhell bod y Senedd yn rhoi ei chydsyniad i'r Bil. Nodwyd ein siom bod hyn yn dangos methiannau clir mewn gwaith rhynglywodraethol.

¹¹ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 9 Ionawr 2023.

¹² Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 16 Ionawr 2023

- 28.** Rydym yn cydnabod, ers gosod y Bil gerbron Senedd y DU a gosod y Memorandwm gerbron y Senedd, ei bod yn ymddangos bod cynnydd wedi'i wneud mewn cysylltiadau rhynglywodraethol i'r perwyl bod Llywodraeth Cymru wedi sicrhau rhai consesiynau, fel y'u nodwyd ym mharagraff 23 uchod.
- 29.** Gofynnodd Argymhelliad 1 yn ein hadroddiad cyntaf pam nad oedd achosion o fethiannau mewn gwaith rhynglywodraethol, fel y dangoswyd yn wreiddiol mewn perthynas â'r Bil hwn, wedi'u huwchgyfeirio i lefelau uwch yn y strwythurau rhynglywodraethol, gan gynnwys y gweithdrefnau datrys anghydfod diwygiedig.
- 30.** Nodwn ymateb y Gweinidog y bu deialog adeiladol, yn ei barn hi, â Thrysorlys EF ac "n[a] fu'n rhaid uwchgyfeirio'r materion o dan sylw". Fodd bynnag, mae'n parhau i fod yn aneglur i ni beth y byddai angen iddo ddigwydd neu, yn wir, beidio â digwydd cyn y byddai Llywodraeth Cymru yn ceisio defnyddio'r prosesau datrys anghydfod ffurfiol – yr oedd yn dadlau drostynt – er mwyn datrys anghytundebau difrifol â Llywodraeth y DU.
- 31.** Gofynnodd Argymhelliad 2 yn ein hadroddiad cyntaf i'r Gweinidog egluro beth a olygwyd gan ei datganiad bod Llywodraeth Cymru yn parhau i "ddadlau y dylai Senedd a Llywodraeth Cymru, ill dwy, arfer pwerau sy'n gyfwerth â phwerau'r sefydliadau cyfatebol ar lefel y DU".
- 32.** Mae'n siomedig nad yw ymateb y Gweinidog, na allai roi manylion penodol ynghylch union natur y gwelliannau y gellid eu cyflwyno ac nad yw'r ffaith ei bod hi a'i swyddogion "wedi mynegi'n glir fod rhaid mynd i'r afael â materion sy'n destun pryder cyfansoddiadol mewn modd sy'n dderbyniol i mi ac, yn y pen draw, i'r Senedd", yn ateb digonol i'n cais a wnaed yn yr argymhelliad hwnnw.